| | |
|---|---|
| **Adroddiad ar gyfer:** | **Pwyllgor Craffu Perfformiad** |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | **Hydref 18, 2012** |
| **Aelod Arweiniol/Swyddog:** | **Y Cynghorydd Barbara Smith, Aelod Arweiniol dros Foderneiddio a Pherfformiad / Alan Smith, Pennaeth Cynllunio Busnes a Pherfformiad** |
| **Awdur yr Adroddiad:** | **Tony Ward, Rheolwr y Tîm Gwella Corfforaethol** |
| **Teitl:** | **Adolygiad o Berfformiad Blynyddol Cyngor Sir Ddinbych 2011-12** |

---

## 1. Beth mae'r adroddiad yn ymwneud ag o?

Mae'n ofynnol i'r cyngor gyhoeddi adroddiad blynyddol o'i berfformiad erbyn Hydref 31ain bob blwyddyn. Mae'r adroddiad hwn yn ymwneud ag Adroddiad Perfformiad Blynyddol y Cyngor ar gyfer 2011-12, a drafodwyd gan y Cyngor ar Hydref 9fed 2012.

## 2. Beth yw'r rheswm am wneud yr adroddiad yma?

I ddarparu gwybodaeth ynglŷn â meysydd perfformiad allweddol y cyngor, ac i alluogi'r Pwyllgor Craffu Perfformiad i gynnal ei swyddogaeth o reoli perfformiad.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

Cymeradwyir bod Aelodau'n ystyried yr adroddiad sy'n atodol ac yn nodi unrhyw feysydd perfformiad sydd angen craffu pellach ac y dylid, felly, eu cynllunio ar gyfer Blaenraglen Waith y Pwyllgor.

## 4. Manylion yr Adroddiad

Gosododd Cynllun Corfforaethol 2009-12 y Cyngor y cyfeiriad strategol ar gyfer yr awdurdod, ac fe'i cytunwyd yng Ngorffennaf 2009. Fe gyhoeddodd y cyngor hefyd Ddogfen Gyflenwi'r Cynllun Corfforaethol ar gyfer 2011-12 i amlinellu'r ffordd yr oedd yn bwriadu cyfrannu tuag at gyflenwad ei Gynllun Corfforaethol yn ystod y flwyddyn ariannol honno. Yn ogystal, fe gynhyrchodd pob un o wasanaethau'r cyngor gynllun gwasanaeth ar gyfer 2011-12 i ddisgrifio'r ffordd y mae'n bwriadu cyfrannu tuag at gyflenwad canlyniadau cytun ar gyfer cymunedau Sir Ddinbych. Mae'r adroddiad perfformiad blynyddol yn darparu gwerthusiad ôl-syllol o lwyddiant y cyngor gyda chyflenwi yn erbyn y cynlluniau hyn yn ystod 2011-12, ac felly a ydi'r cyngor wedi cyflawni'n llwyddiannus ei rwymedigaeth i wneud trefniadau i sicrhau gwelliant parhaus.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yma'n cyfrannu tuag at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Mae'r Adolygiad Perfformiad Blynyddol yn cynnwys gwerthusiad penodol o'n llwyddiant gyda chyflenwi ein blaenoriaethau corfforaethol. Mae nid dim ond yn gwerthuso ein perfformiad o ran dangosyddion allweddol y cyngor a mesurau perfformiad, ond mae hefyd yn dangos sut mae'r blaenoriaethau corfforaethol wedi cael effaith yn lleol o fewn chwe ardal Sir Ddinbych.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd o'n effeithio ar wasanaethau eraill?

Yr unig gostau sy'n gysylltiedig â'r adroddiad yma ydi'r rheiny sy'n ymwneud â phrintio'r adroddiad i'w roi ar gael yn nerbynf adeiladau'r cyngor, llyfrgelloedd, siopau un stop, etc. Fe wneir hyn yn fewnol ac fe gaiff y costau ei gynnwys gan Gynllunio Busnes a Pherfformiad.

## 7. Pa ymgynghoriadau a gafwyd ac a gafwyd Sgrinio Asesiad Effaith Cydraddoldeb?

Datblygwyd Adolygiad Perfformiad Blynyddol 2011-12 gan y Tîm Gwella Corfforaethol, mewn ymgynghoriad â gwasanaethau eraill y cyngor. Darparwyd y wybodaeth ar berfformiad a gynhwysir yn y ddogfen yma gan wasanaethau, ac fe'i cymerwyd o system reoli perfformiad Ffynnon. Fe drafodwyd y ddogfen ddrafft gan y Tîm Gweithredol Corfforaethol (CET) a'i chylchredeg i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth ar gyfer sylwadau. Cafwyd ymgynghori hefyd â Swyddfa Archwilio Cymru a ddarparodd adborth cychwynnol ynglŷn ag a oedd yr adroddiad yn debygol o alluogi'r cyngor i gyfarfod â gofynion statudol Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.

Ni wnaethpwyd Asesiad Effaith Cydraddoldeb ar yr adroddiad yma, gan ei fod yn werthusiad ôl-syllol o berfformiad, ac felly nid oes gan y penderfyniad i gymeradwyo'r adroddiad unrhyw effaith potensial ar bobl sy'n rhannu nodweddion a ddiogelir.

## 8. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nid oes yna unrhyw oblygiadau ariannol arwyddocaol yn codi o'r adroddiad.

## 9. Pa risgiau sydd yna ac a oes yna unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Byddai methu â chynhyrchu'r Adolygiad Blynyddol erbyn y terfyn amser o Hydref 31[ain] yn debygol o olygu argymhellion statudol gan Swyddfa Archwilio Cymru, gydag oblygiadau arwyddocaol i enw da'r Cyngor.

## 10. Grym i wneud y Penderfyniad

Mae’r Cynllun Corfforaethol a’r Adolygiad Perfformiad Blynyddol yn elfennau allweddol o Raglen Cymru ar gyfer Gwella (2010), sy’n cael ei danategu gan ofynion statudol Deddf Llywodraeth Leol 1999 a Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2009.